O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 31

Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026

Gwnaed	*6 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 31

The Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2026

Made	*6 February 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£8.90

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2026 Rhif 31

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru o dan bwerau a roddir gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a chan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Maent yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth i banel annibynnol adolygu dyfarniadau penodol a wnaed gan asiantaethau mabwysiadu a darparwyr gwasanaeth maethu.

Y dyfarniadau o dan sylw yw—

- pan fo asiantaeth fabwysiadu yn dyfarnu nad yw darpar fabwysiadydd yn addas i fabwysiadu plentyn, neu nad yw'n addas mwyach i fabwysiadu plentyn yn dilyn adolygiad;
- pan fo asiantaeth fabwysiadu yn gwneud dyfarniad o dan Reoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005 (defnyddir y gair "penderfyniad" i gyfeirio at ddyfarniad yn y testun Cymraeg o'r Rheoliadau hynny);
- pan fo darparwr gwasanaeth maethu yn dyfarnu nad yw person yn addas i weithredu fel rhiant maeth, neu'n penderfynu terfynu cymeradwyaeth bresennol rhiant maeth neu ddiwygio telerau'r gymeradwyaeth honno.

Mae Rhan 1 yn nodi darpariaethau cyffredinol, gan gynnwys diffiniadau, a'r mathau o ddyfarniadau sy'n gymwys i gael eu hadolygu o dan y Rheoliadau hyn.

Mae Rhan 2 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfansoddiad ac aelodaeth paneli adolygu annibynnol a benodir gan Weinidogion Cymru. Mae'n nodi'r meini prawf ar gyfer cynnwys person ar y rhestr ganolog o aelodau panel, cyfansoddiad paneli ar gyfer y mathau

gwahanol o ddyfarniadau, a'r meini prawf anghymhwyso ar gyfer aelodau panel. Mae hefyd yn darparu ar gyfer penodi cynghorwyr paneli a chadeiryddion paneli, ac ar gyfer gweinyddu, ffioedd a chadw cofnodion mewn perthynas â phaneli.

Mae Rhan 3 yn nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud cais am adolygiad, cynnal y broses adolygu, a dyletswyddau'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad gwreiddiol. Mae'n cynnwys terfynau amser ar gyfer gwneud ceisiadau ac ar gyfer penodiadau i baneli. Mae hefyd yn darparu bod rhaid i'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad dalu unrhyw gostau i Weinidogion Cymru y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn rhesymol.

Mae Rhan 4 yn cynnwys darpariaeth sy'n dirymu Rheoliadau 2010.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

2026 Rhif 31

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026

Gwnaed	*6 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 9(1)(a) a 12(1), (3) a (3A)(**1**) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**2**) ac adrannau 87 a 93(1)(b), (2)(b), (3) a (4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**3**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

RHAN 1
CYFFREDINOL

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Adolygu Dyfarniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2026 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2026.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "adroddiad darpar fabwysiadydd" ("*prospective adopter's report*") yw adroddiad a lunnir yn unol â rheoliad 30 o'r Rheoliadau Asiantaethau;

mae i "asiantaeth fabwysiadu" yr ystyr a roddir i "adoption agency" yn adran 2(1) o Ddeddf 2002;

(**1**) 2002 p. 38. Diwygiwyd adran 12 gan adran 57 o Ddeddf Plant 2004 (p. 31) a chan adran 34 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).
(**2**) *Gweler* y diffiniadau o "regulations", "appropriate Minister" a "the Assembly" yn adran 144(1). Trosglwyddwyd y pwerau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud rheoliadau o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**3**) 2014 dccc 4. Diwygiwyd adran 93 gan reoliad 302 o Reoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016 (O.S. 2016/413 (Cy. 131)).

ystyr “ceisydd” (“*applicant*”) yw—

(a) yn achos dyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu, darpar fabwysiadydd;

(b) yn achos dyfarniad ar ddatgelu, person perthnasol o fewn ystyr rheoliad 13A(7) o’r Rheoliadau Datgelu(**4**);

(c) yn achos dyfarniad ar faethu, person y rhoddwyd hysbysiad iddo at ddibenion rheoliad 8(6)(a) o’r Rheoliadau Maethu;

ystyr “darparwr gwasanaeth maethu” (“*fostering service provider*”) yw—

(a) darparwr gwasanaeth maethu awdurdod lleol;

(b) darparwr gwasanaeth maethu rheoleiddiedig;

ystyr “darparwr gwasanaeth maethu awdurdod lleol” (“*local authority fostering service provider*”) yw’r awdurdod lleol sy’n darparu gwasanaeth maethu’r awdurdod lleol;

ystyr “darparwr gwasanaeth maethu rheoleiddiedig” (“*regulated fostering service provider*”) yw person sydd wedi ei gofrestru o dan adran 7 o Ddeddf 2016 i ddarparu gwasanaeth maethu;

ystyr “Deddf 2002” (“*the 2002 Act*”) yw Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002;

ystyr “Deddf 2014” (“*the 2014 Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “Deddf 2016” (“*the 2016 Act*”) yw Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**5**);

ystyr “dyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu” (“*adoption suitability determination*”) yw dyfarniad cymhwysol a ddisgrifir yn rheoliad 3(a);

ystyr “dyfarniad ar ddatgelu” (“*disclosure determination*”) yw penderfyniad cymhwysol o ddisgrifiad a ragnodir yn rheoliad 13A o’r Rheoliadau Datgelu;

ystyr “dyfarniad ar faethu” (“*fostering determination*”) yw dyfarniad cymhwysol o ddisgrifiad a ragnodir yn rheoliad 4;

ystyr “dyfarniad cymhwysol” (“*qualifying determination*”) yw dyfarniad a ddisgrifir yn rheoliadau 3 a 4;

ystyr “gwasanaeth maethu awdurdod lleol” (“*local authority fostering service*”) yw unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan awdurdod lleol sy’n gwneud y naill neu’r llall o’r canlynol neu sy’n cynnwys y naill neu’r llall o’r canlynol, sef lleoli plant gyda rhieni maeth neu arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â lleoliad o’r fath;

ystyr “gwasanaeth maethu rheoleiddiedig” (“*regulated fostering service*”) yw unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan berson sydd wedi ei gofrestru o dan adran 7 o Ddeddf 2016 i ddarparu gwasanaeth maethu;

ystyr “gweithiwr cymdeithasol” (“*social worker*”) yw person sydd wedi ei gofrestru—

(a) yn y gofrestr o weithwyr cymdeithasol yn Lloegr a gynhelir o dan adran 39(1) o Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol 2017(**6**),

(**4**) O.S. 2005/2689 (Cy. 189). Mewnosodwyd rheoliad 13A gan O.S. 2006/3100 (Cy. 284).
(**5**) 2016 dccc 2.
(**6**) 2017 p. 16.

(b) yn y rhan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**7**),

(c) yn y rhan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr a gynhelir gan Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban o dan adran 44 o Ddeddf Rheoleiddio Gofal (Yr Alban) 2001(**8**), neu

(d) yn y rhan ar gyfer gweithwyr cymdeithasol o'r gofrestr a gynhelir gan Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon o dan adran 3 o Ddeddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 2001(**9**);

ystyr "panel" ("*panel*") yw panel y mae'n ofynnol gan reoliad 5 i Weinidogion Cymru ei gyfansoddi yn unol â rheoliad 6, 7 neu 8, yn ôl y digwydd;

ystyr "panel mabwysiadu" ("*adoption panel*") yw panel y mae'n ofynnol i asiantaeth fabwysiadu ei gyfansoddi yn unol â rheoliad 3 o'r Rheoliadau Asiantaethau;

ystyr "y Rheoliadau Asiantaethau" ("*the Agencies Regulations*") yw Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005(**10**);

ystyr "y Rheoliadau Datgelu" ("*the Disclosure Regulations*") yw Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005(**11**);

ystyr "y Rheoliadau Maethu" ("*the Fostering Regulations*") yw Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018(**12**);

mae "y rhestr ganolog" ("*the central list*") i'w ddehongli yn unol â rheoliad 5;

mae i "rhiant maeth" ("*foster parent*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Maethu;

ystyr "sefydliad" ("*organisation*") yw asiantaeth fabwysiadu neu ddarparwr gwasanaeth maethu, yn ôl y digwydd.

Dyfarniad cymhwysol — disgrifiad rhagnodedig at ddibenion adran 12(2) o Ddeddf 2002

3. At ddibenion adran 12(2) o Ddeddf 2002, dyfarniad cymhwysol yw—

(a) dyfarniad a wneir gan asiantaeth fabwysiadu—

(i) o dan reoliad 30B(5) o'r Rheoliadau Asiantaethau nad yw'r asiantaeth yn bwriadu cymeradwyo darpar fabwysiadydd fel rhywun addas i fabwysiadu plentyn,

(ii) o dan reoliad 30CH(2) o'r Rheoliadau Asiantaethau nad yw darpar fabwysiadydd yn addas mwyach i fabwysiadu plentyn yn dilyn adolygiad, neu

(b) penderfyniad a ddisgrifir yn rheoliad 13A(1) o'r Rheoliadau Datgelu.

(**7**) 2016 dccc 2.
(**8**) 2001 dsa 8.
(**9**) 2001 p. 3 (G.I.).
(**10**) O.S. 2005/1313 (Cy. 95), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/567 (Cy. 68), O.S. 2020/163, O.S. 2020/319 (Cy. 72) ac O.S. 2020/1082 (Cy. 244). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**11**) O.S. 2005/2689 (Cy. 189). Diwygiwyd y Rheoliadau Datgelu gan O.S. 2006/3100 (Cy. 284). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.
(**12**) O.S. 2018/1333 (Cy. 260). Mae offerynnau sy'n diwygio'r Rheoliadau Maethu ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Dyfarniad cymhwysol — disgrifiadau rhagnodedig at ddibenion adran 93(2)(b) o Ddeddf 2014

4. At ddibenion adran 93(2)(b) o Ddeddf 2014, mae'r disgrifiadau a ganlyn o ddyfarniadau wedi eu rhagnodi—

(a) dyfarniad (ac eithrio penderfyniad a wneir yn unol â rheoliad 7(11) o'r Rheoliadau Maethu) fod y darparwr gwasanaeth maethu yn bwriadu peidio â chymeradwyo person fel rhywun addas i weithredu fel rhiant maeth yn unol â rheoliad 8(6) o'r Rheoliadau Maethu, a

(b) dyfarniad (ac eithrio penderfyniad a wneir yn unol â rheoliad 7(11) o'r Rheoliadau Maethu) fod y darparwr gwasanaeth maethu yn bwriadu terfynu, neu'n bwriadu diwygio telerau, cymeradwyaeth person fel rhywun addas i weithredu fel rhiant maeth yn unol â rheoliad 9(7) o'r Rheoliadau Maethu, pan fo hysbysiad am y penderfyniad yn cael ei roi ar ôl 31 Mawrth 2026.

RHAN 2

PANELI

Cyfansoddiad paneli

5.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru, ar ôl cael cais a wnaed gan geisydd yn unol â rheoliad 18, gyfansoddi panel yn unol â rheoliad 6, 7 neu 8, yn ôl y digwydd, at ddiben adolygu'r dyfarniad cymhwysol.

(2) Rhaid dewis aelodau'r panel o restr o bersonau (y cyfeirir ati yn y Rheoliadau hyn fel "y rhestr ganolog") a gedwir gan Weinidogion Cymru, y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn addas, yn rhinwedd eu sgiliau, eu cymwysterau neu eu profiad, i fod yn aelodau panel.

(3) Rhaid i aelodau'r rhestr ganolog gynnwys—

(a) gweithwyr cymdeithasol sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes gwaith mabwysiadu a lleoli gyda theuluoedd,

(b) gweithwyr cymdeithasol sydd ag o leiaf dair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes gwaith cymdeithasol sy'n ymwneud â gofal plant, gan gynnwys profiad uniongyrchol o waith maethu,

(c) ymarferwyr meddygol cofrestredig, a

(d) personau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn addas i fod yn aelodau gan gynnwys, pan fo'n rhesymol ymarferol, bersonau sydd â phrofiad personol o fabwysiadu a phersonau sydd, neu sydd wedi bod o fewn y ddwy flynedd flaenorol, yn rhiant maeth awdurdod lleol.

Aelodaeth panel i adolygu dyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu

6. Pan fo'r dyfarniad cymhwysol sydd i'w adolygu yn ddyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu, pump yw nifer y bobl y mae rhaid eu penodi i banel a rhaid i'r panel gynnwys—

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(a),

(b) un person sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(c), ac

(c) dau berson arall o'r rhestr ganolog, gan gynnwys, pan fo'n rhesymol ymarferol, o leiaf un person sydd â phrofiad personol o fabwysiadu.

Aelodaeth panel i adolygu dyfarniad ar ddatgelu

7. Pan fo'r dyfarniad cymhwysol sydd i'w adolygu yn ddyfarniad ar ddatgelu, pump yw nifer y bobl y mae rhaid eu penodi i banel a rhaid i'r panel gynnwys—

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(a), a

(b) tri pherson o'r rhestr ganolog.

Aelodaeth panel i adolygu dyfarniad ar faethu

8. Pan fo'r dyfarniad cymhwysol sydd i'w adolygu yn ddyfarniad ar faethu, pump yw nifer y bobl y mae rhaid eu penodi i banel a rhaid i'r panel gynnwys—

(a) dau berson sy'n dod o fewn rheoliad 5(3)(b), a

(b) tri pherson arall o'r rhestr ganolog, gan gynnwys, pan fo'n rhesymol ymarferol, o leiaf un person sydd, neu sydd wedi bod o fewn y ddwy flynedd flaenorol, yn rhiant maeth awdurdod lleol.

Cynghorwyr panel

9.—(1) Rhaid i banel gael ei gynghori gan weithiwr cymdeithasol sydd â chymwysterau, sgiliau a phrofiad priodol.

(2) Caniateir i banel, pan fo'r panel yn ystyried ei bod yn briodol, gael ei gynghori gan—

(a) cynghorydd cyfreithiol sydd â gwybodaeth ac arbenigedd ym maes deddfwriaeth sy'n ymwneud â mabwysiadu a maethu;

(b) ymarferydd meddygol cofrestredig sydd ag arbenigedd perthnasol ym maes gwaith mabwysiadu neu faethu, pa un bynnag sy'n briodol i'r dyfarniad cymhwysol sy'n cael ei ystyried;

(c) unrhyw berson arall y mae'r panel yn ystyried bod ganddo arbenigedd perthnasol mewn perthynas â'r dyfarniad sy'n cael ei ystyried.

(3) Rhaid i'r cynghorwyr panel y cyfeirir atynt ym mharagraffau (1) a (2) fod yn aelodau o'r rhestr ganolog.

Penodi cadeirydd panel

10. Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol i gadeirio panel.

Anghymhwyso aelodau panel

11.—(1) Ni chaniateir penodi person ("P") i banel—

(a) os yw P yn aelod o banel mabwysiadu'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad cymhwysol, neu'n aelod o banel maethu'r sefydliad hwnnw,

(b) yn achos dyfarniad cymhwysol a wnaed gan awdurdod lleol, os yw P, neu os oedd P o fewn y cyfnod o un flwyddyn cyn y dyddiad y gwnaed y dyfarniad cymhwysol—

(i) wedi ei gyflogi gan yr awdurdod hwnnw yn ei adran gwasanaethau cymdeithasol i blant a theuluoedd, neu

(ii) yn aelod o'r awdurdod hwnnw,

(c) yn achos dyfarniad cymhwysol a wnaed gan sefydliad nad yw'n awdurdod lleol, os yw P, neu os oedd P o fewn y cyfnod o un flwyddyn cyn y dyddiad y gwnaed y dyfarniad cymhwysol, yn gyflogai neu'n ymddiriedolwr i'r sefydliad hwnnw,

(d) os yw P yn perthyn i berson sy'n dod o fewn is-baragraff (a), (b) neu (c),

(e) os yw'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad cymhwysol wedi lleoli plentyn ar gyfer ei fabwysiadu gyda P neu wedi lleoli plentyn gyda P fel rhiant maeth awdurdod lleol,

(f) os cafodd P ei fabwysiadu neu ei faethu yn blentyn, a'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad cymhwysol oedd y sefydliad a drefnodd i P gael ei fabwysiadu neu ei faethu, neu

(g) os yw P yn adnabod y ceisydd yn bersonol neu yn rhinwedd ei broffesiwn.

(2) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae "wedi ei gyflogi" yn cynnwys bod yn barti i gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau neu weithio fel gwirfoddolwr, a

(b) mae P yn perthyn i berson arall ("A") os yw P—

(i) yn aelod o aelwyd A, neu'n briod ag A neu'n bartner sifil i A,

(ii) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i A, neu

(iii) yn fab, merch, mam, tad, chwaer neu frawd i'r person y mae A yn briod ag ef neu y mae A wedi ffurfio partneriaeth sifil ag ef.

Swyddogaethau panel a gyfansoddwyd i adolygu dyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu

12.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r dyfarniad cymhwysol sy'n cael ei adolygu yn ddyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu.

(2) Rhaid i banel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 6 adolygu'r dyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu ac—

(a) pan fo paragraff (3) yn gymwys, gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y dyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu ynghylch a yw'r ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn ai peidio, neu

(b) pan fo paragraff (4) yn gymwys, gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y dyfarniad ar addasrwydd i fabwysiadu—

(i) y dylai lunio adroddiad darpar fabwysiadydd yn unol â rheoliad 30(2) a, phan fo'n gymwys, â rheoliad 30(3) o'r Rheoliadau Asiantaethau i gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliad hwnnw, neu

(ii) nad yw'r ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd adroddiad y darpar fabwysiadydd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 30(2), a phan fo'n gymwys, gan reoliad 30(3) o'r Rheoliadau Asiantaethau.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan nad oedd adroddiad y darpar fabwysiadydd, yn unol â rheoliad 30(4) o'r Rheoliadau Asiantaethau, yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 30(2) a, phan fo'n gymwys, gan reoliad 30(3) o'r Rheoliadau Asiantaethau.

(5) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, o ran y panel—

(a) rhaid iddo bwyso a mesur ac ystyried yr holl wybodaeth a roddwyd iddo yn unol â rheoliad 30C o'r Rheoliadau Asiantaethau,

(b) caiff ofyn i'r asiantaeth fabwysiadu gael unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, neu ddarparu unrhyw gymorth arall y caiff y panel ofyn amdano, ac

(c) caniateir iddo gael unrhyw gyngor gan y cynghorwyr y cyfeirir atynt yn rheoliad 9 y mae'n ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r achos.

(6) Pan fo'r panel yn gwneud argymhelliad bod y ceisydd yn addas i fabwysiadu plentyn, caiff y panel roi cyngor i'r asiantaeth fabwysiadu ynghylch nifer y plant y gall y darpar fabwysiadydd fod yn addas i'w mabwysiadu, ystod eu hoedran, eu rhyw, eu hanghenion tebygol a'u cefndir.

Swyddogaethau panel a gyfansoddwyd i adolygu dyfarniad ar ddatgelu

13.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r dyfarniad cymhwysol sy'n cael ei adolygu yn ddyfarniad ar ddatgelu.

(2) Rhaid i banel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 7 adolygu'r dyfarniad ar ddatgelu a gwneud argymhelliad i'r asiantaeth fabwysiadu a wnaeth y dyfarniad ar ddatgelu ynghylch a ddylai'r asiantaeth fwrw ymlaen â'i dyfarniad gwreiddiol ai peidio.

(3) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, o ran y panel—

(a) rhaid iddo bwyso a mesur ac ystyried yr holl wybodaeth a roddwyd iddo yn unol â rheoliad 13A o'r Rheoliadau Datgelu,

(b) caiff ofyn i'r asiantaeth fabwysiadu gael unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, neu ddarparu unrhyw gymorth arall y caiff y panel ofyn amdano,

(c) caniateir iddo gael unrhyw gyngor gan y cynghorwyr y cyfeirir atynt yn rheoliad 9 y mae'n ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r achos,

(d) rhaid iddo ystyried yr effaith ar unrhyw berson y gall datgelu'r wybodaeth effeithio arno, ac

(e) rhaid iddo ystyried lles unrhyw berson mabwysiedig ac os yw'r person yn blentyn mabwysiedig, rhaid i les y plentyn hwnnw fod yn bwysicach na dim.

Swyddogaethau panel a gyfansoddwyd i adolygu dyfarniad ar faethu

14.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo'r dyfarniad cymhwysol sy'n cael ei adolygu yn ddyfarniad ar faethu.

(2) Rhaid i banel a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 adolygu'r dyfarniad ar faethu ac—

(a) pan fo paragraff (3) yn gymwys, gwneud argymhelliad i'r darparwr gwasanaeth maethu a wnaeth y dyfarniad ar faethu ynghylch a yw'r ceisydd yn addas i weithredu fel rhiant maeth ai peidio;

(b) pan fo paragraff (4) yn gymwys, gwneud argymhelliad i'r darparwr gwasanaeth maethu a wnaeth y dyfarniad ar faethu—

(i) y dylai lunio adroddiad llawn yn unol â rheoliad 7(5)(c) o'r Rheoliadau Maethu i gynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 7 o'r Rheoliadau hynny, neu

(ii) nad yw'r ceisydd yn addas i weithredu fel rhiant maeth;

(c) pan fo'r dyfarniad cymhwysol yn ymwneud â thelerau cymeradwyaeth y ceisydd fel rhywun addas i weithredu fel rhiant maeth, gwneud argymhelliad i'r darparwr gwasanaeth maethu ynghylch y telerau hynny.

(3) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan oedd yr adroddiad ysgrifenedig a luniwyd gan y darparwr gwasanaeth maethu yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan reoliad 7(5)(c) o'r Rheoliadau Maethu.

(4) Mae'r paragraff hwn yn gymwys pan luniwyd yr adroddiad ysgrifenedig gan y darparwr gwasanaeth maethu yn unol â rheoliad 7(6) o'r Rheoliadau Maethu, ac o ganlyniad, nad oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth a fyddai fel arall yn ofynnol gan reoliad 7(5)(c).

(5) Wrth ystyried pa argymhelliad i'w wneud, o ran y panel—

(a) rhaid iddo bwyso a mesur ac ystyried yr holl wybodaeth a roddwyd iddo yn unol â rheoliad 10 o'r Rheoliadau Maethu,

(b) caiff ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr gwasanaeth maethu gael unrhyw wybodaeth berthnasol arall y mae'r panel yn ystyried ei bod yn angenrheidiol, neu ddarparu unrhyw gymorth arall y caiff y panel ofyn amdano, ac

(c) caniateir iddo gael unrhyw gyngor gan y cynghorwyr y cyfeirir atynt yn rheoliad 9 y mae'n ystyried ei fod yn angenrheidiol mewn perthynas â'r achos.

(6) Pan fo'r panel yn gwneud argymhelliad bod y ceisydd yn addas i weithredu fel rhiant maeth, caiff y panel hefyd wneud argymhelliad i'r darparwr gwasanaeth maethu ynghylch telerau unrhyw gymeradwyaeth.

Pŵer i ohirio paneli

15.—(1) Caiff y panel ohirio gwrandawiad y panel—

(a) pan fo'r panel yn ystyried nad oes ganddo ddigon o wybodaeth i wneud argymhelliad i'r sefydliad perthnasol yn unol â rheoliad 12(2), 13(2) neu 14(2), a

(b) pan fo'r panel yn dymuno gofyn am ragor o wybodaeth.

(2) Rhaid ailgynnull y panel cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol pan fydd yr wybodaeth y cyfeirir ati ym mharagraff (1)(b) ar gael, ond mewn unrhyw achos heb fod yn hwyrach na 28 o ddiwrnodau calendr o ddyddiad y gwrandawiad panel a ohiriwyd.

Ffioedd aelodau paneli

16. Caiff Gweinidogion Cymru dalu i unrhyw aelod panel unrhyw ffioedd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn rhesymol.

Cofnodion

17. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod cofnod ysgrifenedig o adolygiad panel o'r dyfarniad cymhwysol, gan gynnwys y rhesymau dros ei argymhelliad ac a oedd yr argymhelliad yn unfrydol neu'n argymhelliad gan fwyafrif, yn cael ei gadw am gyfnod o 5 mlynedd o'r dyddiad y gwneir yr argymhelliad.

RHAN 3

Y WEITHDREFN

Cais i adolygu dyfarniad cymhwysol

18. Rhaid i gais i Weinidogion Cymru i adolygu dyfarniad cymhwysol—

(a) cael ei wneud gan y ceisydd yn ysgrifenedig o fewn 40 niwrnod gwaith sy'n dechrau â'r dyddiad yr anfonwyd hysbysiad am y dyfarniad cymhwysol at y ceisydd gan y sefydliad, a

(b) cynnwys y seiliau dros y cais.

Penodi panel a chynnal adolygiad

19.—(1) Ar ôl cael cais sydd wedi ei wneud yn unol â rheoliad 18, rhaid i Weinidogion Cymru—

(a) o fewn 5 niwrnod gwaith, hysbysu'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad cymhwysol fod y cais wedi ei wneud drwy anfon copi o'r cais i'r sefydliad;

(b) o fewn 5 niwrnod gwaith, anfon cydnabyddiaeth ysgrifenedig o'r cais at y ceisydd a hysbysu'r ceisydd am y camau a gymerwyd o dan is-baragraff (a);

(c) o fewn 25 o ddiwrnodau gwaith, benodi panel yn unol â rheoliad 5 a phennu dyddiad, amser a lleoliad i'r panel gyfarfod at ddibenion adolygu'r dyfarniad cymhwysol ("cyfarfod adolygu");

(d) ar ôl cymryd y camau a ragnodir yn is-baragraff (c), a heb fod yn llai na 5 niwrnod gwaith cyn y cyfarfod adolygu, roi gwybod yn ysgrifenedig i'r ceisydd a'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad cymhwysol—

(i) bod y panel wedi ei benodi, a

(ii) am ddyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod adolygu.

(2) Ni chaiff y dyddiad a bennir ar gyfer y cyfarfod adolygu fod yn hwyrach na deuddeng wythnos ar ôl y dyddiad y mae Gweinidogion Cymru yn cael y cais.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y panel yn cael yr holl bapurau perthnasol sy'n ymwneud â'r adolygiad cyn gynted â phosibl, ond heb fod yn llai na 5 niwrnod gwaith cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y cyfarfod adolygu.

Dyletswydd i ddarparu gwybodaeth a chymorth

20. Rhaid i'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad cymhwysol ddarparu, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, unrhyw wybodaeth neu unrhyw gymorth y gofynnir amdani neu amdano gan y panel o dan reoliad 12, 13, 14 neu 15.

Argymhelliad y panel

21.—(1) Pan na fo argymhelliad y panel yn unfrydol, rhaid i'r argymhelliad fod yn argymhelliad gan y mwyafrif.

(2) Caniateir i'r argymhelliad gael ei wneud a'i gyhoeddi ar ddiwedd yr adolygiad, neu caniateir iddo gael ei gadw yn ôl.

(3) Rhaid i'r argymhelliad a'r rhesymau drosto, ac a oedd yn unfrydol neu'n argymhelliad gan fwyafrif, gael eu cofnodi'n ddi-oed mewn dogfen a gaiff ei llofnodi a'i dyddio gan y cadeirydd.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru anfon, yn ddi-oed ac mewn unrhyw achos heb fod yn hwyrach na 10 niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y gwneir yr argymhelliad, gopi o'r argymhelliad a'r rhesymau drosto at y ceisydd ac i'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad cymhwysol.

Dyletswydd i dalu costau mewn cysylltiad ag adolygiad

22. Rhaid i'r sefydliad a wnaeth y dyfarniad cymhwysol dalu i Weinidogion Cymru unrhyw gostau mewn cysylltiad â'r adolygiad o'r dyfarniad cymhwysol hwnnw y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn rhesymol.

RHAN 4

DIRYMU

Dirymu

23. Mae Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010(**13**) wedi eu dirymu(**14**).

Dawn Bowden
Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
6 Chwefror 2026

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

(**13**) O.S. 2010/746 (Cy. 75).

(**14**) Mae adran 34(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) yn cael effaith, fel y caniateir parhau neu orfodi unrhyw hawl, braint, rhwymedigaeth neu atebolrwydd a geir neu a gronnir o dan Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010, ac unrhyw geisiadau am adolygiad a wnaed o dan Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010, fel pe na bai'r dirymiad wedi digwydd.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 31

SOCIAL CARE, WALES

CHILDREN AND YOUNG PERSONS, WALES

The Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations are made by the Welsh Ministers under powers conferred by the Adoption and Children Act 2002 and the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014. They revoke and replace the Independent Review of Determinations (Adoption and Fostering) (Wales) Regulations 2010 ("the 2010 Regulations").

These Regulations make provision for the review by an independent panel of certain determinations made by adoption agencies and fostering service providers.

The determinations concerned are—

- where an adoption agency determines that a prospective adopter is not suitable to adopt a child, or is no longer suitable to adopt a child following a review;
- where an adoption agency makes a determination under the Access to Information (Post-Commencement Adoptions) (Wales) Regulations 2005 (the word "decision" is used to refer to a determination in the Welsh language text of those Regulations);
- where a fostering service provider determines that a person is not suitable to act as a foster parent, or decides to terminate or revise the terms of a foster parent's existing approval.

Part 1 sets out general provisions, including definitions, and the types of determinations that qualify for review under these Regulations.

Part 2 makes provision for the constitution and membership of independent review panels appointed by the Welsh Ministers. It sets out the criteria for inclusion on the central list of panel members, the composition of panels for the different types of determinations, and the disqualification criteria for panel members. It also provides for the appointment

of panel advisers and chairs, and for the administration, fees and record-keeping of panels.

